**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi**

**9 Hydref 2018, 12:30, Ystafell Gynadledda A, Tŷ Hywel**

**Yn bresennol**

John Griffiths (Aelod Cynulliad, Llafur Cymru), y Cadeirydd Claire Cunliffe (Oxfam Cymru), Ysgrifenyddiaeth

| | |
|---|---|
| Beth Thomas (Big Issue) | Cath Thomas (Achub y Plant) |
| Sarah Way (SRCDC) | Tom Davies (Cymdeithas y Plant) |
| Carol Wardman (yr Eglwys yng Nghymru) | Michelle Lewis (Cyngor ar Bopeth) |
| Susan Lloyd Selby (Ymddiriedolaeth Trussell) | Kerry Moore (Prifysgol Caerdydd) |
| Ben Lloyd (Achub y Plant) | Nick Ireland (USDAW) |
| Yr Athro Kevin Morgan (Prifysgol Metropolitan Caerdydd) | Sarah Thomas (WI) |
| Lizzie Swaffield (Prifysgol Metropolitan Caerdydd) | Dr Duncan Holtom (Pobl a Gwaith) |
| Mike Hedges (Aelod Cynulliad, Llafur Cymru) | Cai Griffiths-Sturge (BASW) |

Victoria Winckler (Sefydliad Bevan)

**Ymddiheuriadau**

Rachel Cable (Oxfam Cymru)

Sarah Germain (Fareshare Cymru)

Emma Holmes (PHW)

1. **Croeso a chyflwyniadau**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chyflwynwyd pawb o amgylch y bwrdd.

2. **Busnes craidd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau fod blwyddyn wedi mynd heibio ers sefydlu'r Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi ac felly roedd angen cynnal etholiadau mewn perthynas â rolau'r Cadeirydd a'r Ysgrifenyddiaeth.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod John Griffiths (AC) yn parhau'n Gadeirydd a bod Oxfam Cymru yn parhau i ymgymryd â gwaith yr Ysgrifenyddiaeth.

3. **Sylwadau ar y flwyddyn flaenorol**

Cafwyd trafodaeth ar waith y grŵp hyd yma gan gynnwys yr ohebiaeth â'r Prif Weinidog a'r cynnig llwyddiannus i gynnal Dadl gan Aelodau Unigol. Nododd y Cadeirydd fod y grŵp wedi gwneud cynnydd da mewn dim ond blwyddyn a'i bod yn galonogol ei fod wedi llwyddo i agor deialog o'r fath gyda'r Prif Weinidog a'r swyddog, ac mae angen sicrhau bod y momentwm hwn yn parhau. Nodwyd hefyd fod y dadl gan Aelodau Unigol wedi bod yn ddefnyddiol iawn o ran hoelio sylw'r holl bleidiau gwleidyddol yn enwedig yn ystod cyfnod pan fo Brexit mor flaenllaw. Teimlai'r

holl aelodau fod angen i'r grŵp sicrhau bod y momentwm yn parhau  a bod y Grŵp yn parhau i fod â llais beirniadol o gofio nad oes strategaeth ar waith o hyd.

Yn yr ohebiaeth ddiweddaraf â'r Prif Weinidog, nododd yr aelodau bod ymrwymiad i gyhoeddi taflen ffeithiau yn amlinellu'r hyn y mae'r llywodraeth wedi'i wneud i fynd i'r afael â thlodi, a hynny erbyn mis Medi 2019, ac eto nid yw hon wedi'i chyhoeddi eto.

**CAM I'W GYMRYD: Oxfam Cymru a'r Cadeirydd i ysgrifennu at y Prif Weinidog i ofyn am gopi o'r cynllun gweithredu**

Nodwyd hefyd fod y Prif Weinidog yn dweud yn ei lythyr bod dau o'i Weinidogion yn gyfrifol am fynd i'r afael â thlodi, sef Julie James, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a Ken Skates, y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth. Cafwyd trafodaeth ar ymgysylltiad yr aelodau â'r Gweinidogion hyn gan gynnwys y cyfarfod rhwng y Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant ac ymgysylltiad Julie James a Chyngor ar Bopeth â Lee Waters ynglŷn â thwf swyddi a thasglu'r cymoedd. Tanlinellwyd y dylid mynd i'r afael â thlodi fel arf economaidd mewn trafodaethau sylfaenol ar yr economi a chynlluniau cyllidebol.

Dywedodd CC fod Ken Skates, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, wedi gwrthod cwrdd ag Oxfam Cymru, sef Ysgrifenyddiaeth y grŵp,  yn dilyn y Ddadl gan Aelodau Unigol; a chynigiwyd iddynt gwrdd, yn lle hynny, â Maureen Howells, Cyfarwyddwr Ffyniant yn Llywodraeth Cymru. Yn anffodus, nid oedd modd i Maureen fod yn bresennol yn y cyfarfod ar yr amser a'r dyddiad a drefnwyd, ond trefnwyd i Oxfam Cymru gwrdd â swyddogion eraill o'i thîm.

Cytunwyd y dylid cysylltu â'r ddau Weinidog i ofyn am y camau y maent yn eu cymryd ar hyn o bryd o fewn eu portffolio a'u gwahodd i gyfarfod yn y dyfodol.

**CAM I'W GYMRYD: Oxfam Cymru a'r Cadeirydd i ysgrifennu at y ddau Weinidog i'w holi am y camau y maent wedi'u cymryd ac yn eu gwahodd i gyfarfod yn y dyfodol.**

## 4. <u>Y camau nesaf</u>

Cafwyd trafodaeth ar y camau nesaf a thaflen ffeithiau'r llywodraeth y cyfeiriwyd ati yn llythyr y Prif Weinidog. Teimlwyd y byddai cynnwys y cynllun gweithredu yn gallu llywio gwaith y grŵp ac y gallai fod yn sail i ddull thematig o gynnal cyfarfodydd yn y dyfodol.

Cytunwyd y byddai'r aelodau yn penderfynu ar themâu'r cyfarfodydd nesaf wedi i'r daflen ffeithiau ddod i law.

**CAM I'W GYMRYD: Bydd cyfarfodydd yn y dyfodol yn dilyn themâu penodol, fel y gall aelodau ddod ag adroddiadau a ffrydiau gwaith allweddol ynghyd. Bydd yr aelodau'n penderfynu ar y themâu cyn gynted ag y bydd taflen ffeithiau Llywodraeth Cymru wedi dod i law.**

Trafodwyd y modd y mae'r grŵp yn ymgysylltu â'r cyhoedd a'r sector preifat. Nododd Nick Ireland fod gan y grŵp rôl bwysig yn y broses o ddylanwadu ar arferion gwaith ac ideoleg cyflogwyr yn y sector preifat. Roedd Mike Hedges, AC yn cytuno, a soniodd yn ddiweddarach am y ffaith bod contractau oriau amrywiol ac arferion gwaith ansicr mor gyffredin ym maes tlodi. Nododd Nick Ireland y gellid cylchredeg gwaith ymchwil yn ymwneud â'r maes hwn a thynnodd Claire Cunliffe sylw hefyd at waith ymchwil a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Ofcom GB, sef Behind the Barcodes.

**CAM I'W GYMRYD: Nick Ireland i gylchredeg gwaith ymchwil Claire Cunliffe ynghyd â'r adroddiad, Behind the Barcodes.**

Nodwyd bod y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cwblhau ei adroddiad ar Fudd-daliadau yng Nghymru: opsiynau ar gyfer datganoli system nawdd cymdeithasol a fydd yn cynnwys argymhellion sy'n berthnasol i'r grŵp hwn.

Trafodwyd y wybodaeth ddiweddaraf am waith y glymblaid gwrthdlodi a ffurfiwyd yn ddiweddar a sut y gellid ei ddefnyddio i lywio cyfeiriad y grŵp trawsbleidiol yn y dyfodol. Er enghraifft, bydd Toesen Economaidd Cymru 2020, adroddiad sy'n cael ei gynhyrchu gan yr Athro David Egan a Lizzie Swaffield ar gyfer y glymblaid gwrth-dlodi, yn darparu gwybodaeth a data gwerthfawr. Cytunwyd y bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

**CAM I'W GYMRYD: Claire Cunliffe i drefnu cyflwyniad ar adroddiad Toesen Economaidd Cymru 2020 yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol.**

Cafwyd trafodaeth ar rôl y Grŵp fel llais beirniadol ar waith y llywodraeth ond hefyd fel rhwydwaith rhannu gwybodaeth i ehangu gwybodaeth yr aelodau am y gwahanol feysydd y mae sefydliadau'n ymdrin â nhw ac i'w helpu i ddeall lle mae arbenigedd wedi'i ganoli yn y sector. Er mwyn hwyluso hyn, cytunwyd y byddai'r aelodau'n anfon broliant byr i Oxfam Cymru ar y meysydd gwaith y mae eu sefydliad yn ymdrin â nhw.

**CAM I'W GYMRYD: Yr aelodau i anfon gwybodaeth at Claire Cunliffe am y gwahanol feysydd y mae eu sefydliad yn arbenigo ynddynt a'u casglu ynghyd mewn un ddogfen.**

Nododd Kerry Moore fod gan newyddiadurwyr ddiddordeb mewn materion tlodi ond nad ydyn nhw bob amser yn gwybod sut i baratoi adroddiadau ar faterion tlodi cudd. Mae cynhadledd ar y gweill a fydd yn ystyried y materion hyn ac a allai fod o ddiddordeb i'r aelodau

**CAM I'W GYMRYD: Kerry Moore i anfon manylion y gynhadledd at Claire Cunliffe i'w dosbarthu i aelodau'r grŵp**

Tanlinellodd Victoria Winckler nad yw'r ymrwymiadau ym maniffesto'r Prif Weinidog mewn perthynas â mynd i'r afael â thlodi, yn enwedig tlodi plant, wedi'u rhoi ar waith mewn unrhyw ffordd ystyrlon eto. Y prif ffactorau sy'n sbarduno tlodi yw prinder gwaith boddhaol, costau byw uchel a system nawdd cymdeithasol annheg. Nid yw'n wir nad oes gan Lywodraeth Cymru y gallu i fynd i'r afael â'r meysydd hyn ac felly mae angen i ni ganolbwyntio'n ddygn ar y ffactorau a'r problemau hyn.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau y bydd aelodau meinciau cefn Llafur yn cael cyflwyniad gyda hyn ar yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ar hyn o bryd i fynd i'r afael â thlodi. Trafodwyd yr angen i fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn y cyswllt hwn.

## 5. <u>Unrhyw Fater Arall</u>

Dim

## 6. <u>Cloi</u>

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod a daeth â'r cyfarfod i ben. Cynhelir y cyfarfod nesaf ddechrau 2020 - y dyddiad i'w gadarnhau.